**Senedd Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Welsh Parliament | Research Service**

# P-06-1181 Mae treillio ar wely'r môr yn lladd ein bywyd gwyllt morol... Rhowch y gorau i chwalu'n moroedd!

Y Pwyllgor Deisebau | 20 Medi 2021
Petitions Committee | 20 September 2021

Cyfeirnod: RS21/0634-1

Rhif y ddeiseb: P-06-1181

Teitl y ddeiseb: Mae treillio ar wely'r môr yn lladd ein bywyd gwyllt morol... Rhowch y gorau i chwalu'n moroedd!

Geiriad y ddeiseb: Mae'n peri sioc bod mwy na 97% o'n hardaloedd morol gwarchodedig – a grëwyd i ddiogelu cynefinoedd cefnforol – yn cael eu dinistrio trwy gael eu carthu a'u treillio ar wely'r môr. Yn ôl dadansoddiad o ddata cychod pysgota, mae treillio gwaelodol – sef y math mwyaf dinistriol o bysgota yng nghynefinoedd gwely'r môr – yn digwydd mewn 71 allan o 73 o ardaloedd morol gwarchodedig alltraeth ledled y DU.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i wahardd pob math o dreillio gwaelodol yn nyfroedd Cymru, gan longau tramor a'r DU fel ei gilydd. Rydym ni mewn argyfwng ecolegol ac mae angen gweithredu nawr.

Os na awn ati i gymryd camau nawr, ni fydd gennym unrhyw obaith o atal y broses erchyll o golli bioamrywiaeth, na lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Yr adroddiad diweddar, "Protecting the Global Ocean for Biodiversity, Food and Climate", yw'r adroddiad cyntaf i ddangos yr effaith i'r hinsawdd yn sgil treillio gwaelodol ar draws y byd. Mae'r arfer eang hwn o bysgota yn cynnwys llusgo rhwydi metel trwm ar hyd gwely'r môr, gan chwalu holl fywyd y môr sydd o'i flaen, i bob pwrpas!

Mae ymchwil newydd wedi datgelu bod y system hon o bysgota yn allyrru un gigadunnell o garbon bob blwyddyn. Mae'r carbon hwn yn cael ei ryddhau o waddod gwely'r môr i'r dŵr, a gall gynyddu'r broses o asideiddio'r cefnforoedd, yn ogystal ag effeithio'n andwyol ar gynhyrchiant a bioamrywiaeth. Gwaddodion morol yw'r gronfa fwyaf o storio carbon yn y byd. Mewn gwirionedd, mae cychod pysgota sy'n treillio llawr y cefnfor yn rhyddhau cymaint o garbon deuocsid â'r diwydiant hedfan cyfan!

Does dim lle i dreillio gwaelodol mewn Cymru fodern sy'n gyfeillgar tuag at fyd natur!

# 1. Cefndir

Mae treillio gwaelodol yn ddull o bysgota sy'n targedu rhywogaethau sy'n byw ar wely'r môr. Mae'n fath o 'bysgota gweithredol', lle mae'r offer yn dilyn y rhywogaethau targed (yn hytrach na dulliau goddefol lle mae'r offer yn parhau i fod ar waith ac yn caniatáu i'r rhywogaeth ddod ato). Mae'r math hwn o bysgota gweithredol yn cynnwys:

- *Treillongau trawst* sy'n targedu pysgod ar wely'r môr drwy lusgo rhwyd o'r naill ochr a'r llall i'r cwch;
- *Treillongau dyfnforol* sy'n pysgota ar hyd gwely'r môr neu ychydig yn uwch na hynny i ddal pysgod dyfnforol (sy'n byw ar wely'r môr). Mae rhwyd siâp twndis yn cael ei llusgo y tu ôl i un neu ddau o gychod; a
- *Llusgrwydi* sy'n strwythurau anhyblyg a gaiff eu llusgo ar hyd gwely'r môr gan gwch. Fe'u defnyddir i dargedu rhywogaethau pysgod cregyn fel cregyn bylchog ac wystrys.

Gall gweithgareddau treillio gwely'r môr achosi colled ffisegol neu aflonyddwch i gynefinoedd gwely'r môr, gan gynnwys drwy grafu a mygu.

Cyfeirir at y carbon a gaiff ei ddal a'i storio gan ecosystemau arfordirol a morol, yn benodol cynefinoedd morwellt, morfa heli, mangrof a gwymon fel 'carbon glas' Mae'r llystyfiant mewn cynefinoedd carbon glas yn cael gwared ar garbon deuocsid ($CO^2$) o'r atmosffer a'r dŵr môr o'i amgylch, yna'n storio carbon o fewn planhigion a gwaddodion isorweddol.

Canfu adroddiad ym mis Gorffennaf 2020 Estimating the Carbon Sink Potential of the Welsh Marine Environment, a baratowyd ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC):

> … bod llawer o garbon eisoes wedi'i storio mewn gwaddodion morol yng Nghymru, o leiaf 113 miliwn o dunelli (Mt) yn y 10 cm uchaf. Mae hyn yn cynrychioli bron 170% o'r carbon a geir yng nghoedwigoedd Cymru.

Mae moroedd Cymru'n cynnwys cynefinoedd dal a storio carbon (storio hirdymor) fel morwellt, morfa heli a kelp, sy'n cwmpasu mwy na 99km$^2$ o rwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig (MPA) Cymru.

Ardaloedd Morol Gwarchodedig yw'r term cyfunol ar gyfer pob math o safleoedd cadwraeth natur gwarchodedig yn yr amgylchedd morol. Cânt eu diffinio'n ddaearyddol a'u cydnabod yn ffurfiol drwy ddulliau cyfreithiol neu ddulliau effeithiol eraill, megis dulliau gwirfoddol. Gellir dynodi Ardaloedd Morol Gwarchodedig am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys cadwraeth forol a rheoli pysgodfeydd.

Mae cyfanswm o 139 o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru sy'n cwmpasu 69% o ddyfroedd glannau Cymru (y marc dŵr uchel cymedrig i derfyn moroedd tiriogaethol 12 milltir forol) a 50% o holl ddyfroedd Cymru. Mae pob Ardal Forol Warchodedig yng Nghymru yn safle amlddefnydd. Fodd bynnag, gall rhai gweithgareddau gael eu rheoli neu eu cyfyngu i leihau'r tebygolrwydd o effaith andwyol ar y bywyd gwyllt a'r cynefinoedd y mae'r safle wedi'i ddynodi ar eu cyfer.

Er enghraifft, mae gan Sgomer, sef unig Barth Cadwraeth Forol, Cymru is-ddeddfau pysgodfeydd penodol a chodau ymddygiad. Mae'r rhain yn gwahardd defnyddio offer pysgota symudol (llusgrwydi a threillongau trawst) a thynnu rhywogaethau Cregyn Bylchog y Brenin "drwy unrhyw ddull", sydd wedi'i wahardd ers mis Gorffennaf 1990, pan ddynodwyd y Warchodfa Natur Forol, bryd

hynny. O ganlyniad, mae dwysedd Cregyn Bylchog y Brenin wedi cynyddu fwy na saith gwaith yn y cyfnod monitro o 16 mlynedd.

Mewn ymateb i'r ddeiseb hon, mae'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Lesley Griffiths AS ('y Gweinidog') yn datgan:

> … o dan amgylchiadau pan fo'r dystiolaeth yn dangos y gallai nodwedd gael ei niweidio, mae modd rheoli effeithiau mewn safleoedd drwy ddefnyddio trefniadau fel Gorchmynion Pysgota.

Mae'r Gweinidog yn tynnu sylw at y *Gorchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) (Rhif 2) 2010/269* sy'n cyfyngu ar dreillio rhywogaethau Cregyn Bylchog y Brenin yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol Sir Benfro (sy'n cynnwys Parth Sgomer) ac "ardal fach lle mae'r nodwedd ddynodedig yn absennol" yn Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Ceredigion. Dywed y Gweinidog "ni wyddys am unrhyw offer llusg arall sy'n cael eu defnyddio yno".

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi llunio asesiadau cyflwr nodweddion dangosol ar gyfer nodweddion yn Safleoedd Morol Ewropeaidd (EMS) Cymru, sy'n cynnwys yr holl Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol ac Ardaloedd Gwarchodedig Arbennig (AGA), sef mathau o Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Roedd yr asesiadau hyn yn ystyried statws cadwraeth y nodweddion (rhywogaethau a chynefinoedd), a chanfu fod 45% o'r holl nodweddion dynodedig mewn cyflwr ffafriol, tra bod 45% mewn cyflwr anffafriol.

Yn ei hymateb i'r ddeiseb hon, mae'r Gweinidog yn tynnu sylw at unig Ardal Forol Warchodedig cwbl alltraeth Cymru sydd wedi'i dynodi ar gyfer cynefinoedd dyfnderol – Ardal Gadwraeth Arbennig Slabiau Carbonad Croker, yr ystyrir eu bod mewn cyflwr ffafriol. Mae'n nodi (pwyslais wedi'i ychwanegu):

> Ni ddefnyddir unrhyw offer llusg yno **a fyddai'n niweidio'r nodwedd sydd wedi arwain at ddynodi'r safle.**

Ym mis Hydref 2020 adroddodd y Guardian bod 97% o Ardaloedd Morol Gwarchodedig alltraeth y DU yn destun treillio gwely'r môr yn 2019, gan gynnwys pob un o Ardaloedd Morol Gwarchodedig alltraeth Cymru. Cynhaliwyd y dadansoddiad hwn gan gorff anllywodraethol amgylcheddol Oceana, yn defnyddio data o'r platfform olrhain cychod Global Fishing Watch. Canfu dadansoddiad pellach gan Oceana o ddata 2020 fod yr un nifer o Ardaloedd Morol Gwarchodedig y DU yn cael eu treillio, a bod nifer yr oriau a dreuliwyd yn pysgota ag offer ar wely'r môr yn yr ardaloedd hyn wedi cynyddu 10% ers 2019.

Cafodd Protecting the Global Ocean for Biodiversity, Food and Climate ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2021. Mae'n nodi mai gwaddodion morol yw'r gronfa fwyaf o garbon organig ar y blaned a chronfa hanfodol ar gyfer storio carbon organig yn y tymor hir, fodd bynnag:

> ...disturbance of these carbon stores can re-mineralize sedimentary carbon to $CO^2$, which is likely to increase ocean acidification, reduce the buffering capacity of the ocean and potentially add to the build-up of atmospheric $CO^2$. Thus, protecting the carbon-rich seabed is a potentially important nature-based solution to climate change

Mae'n canfod:

> MPAs - especially highly protected areas in which extractive and destructive activities are banned - can be effective management tools to safeguard and restore ocean biodiversity and associated services complement conventional fisheries management and contribute to the mitigation of climate change by protecting marine carbon stocks

Mewn ymateb i'r ddeiseb hon, mae'r Gweinidog yn dweud, "Ar hyn o bryd, ni ellir dynodi Ardaloedd Morol Gwarchodedig oherwydd bod ynddynt adnodd megis y potensial i ddal carbon".

Mae adroddiad diweddar gan gyrff anllywodraethol amgylcheddol WWF, RSPB a'r Gymdeithas Cadwraeth Forol yn galw am strategaeth 'hinsawdd-glyfar' ar gyfer y sector pysgota, gan gynnwys argymhelliad i:

> Limit bottom towed fishing gear to protect and support the recovery of blue carbon within current MPAs and in key areas outside of MPAs.

# 2. Camau gan Lywodraeth Cymru

Mae *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016* yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru o leiaf 80% ar gyfer y flwyddyn 2050 gyda system o dargedau allyriadau a chyllidebau carbon interim . Ers hynny mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i idarged i leihau allyriadau net erbyn 2050. Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Pholisi Adnoddau Naturiol fel rhan o'r gwaith o weithredu *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016,* lle mae'n datgan bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i (pwyslais wedi'i ychwanegu).

> ... datblygu arfau sy'n mesur manteision ffyrdd cydgysylltiedig o fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd (gan gynnwys gwasanaethau ecosystem, diogelu amrywiaeth biolegol, dal a storio carbon a cydfuddiannau ehangach sy'n helpu i'n gwneud yn fwy cydnerth)

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ar y prosiect Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru. Mewn ymateb i gwestiwn ysgrifenedig yn 2017, dyma sut y cafodd y prosiect ei ddisgrifio gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ar y pryd:

> ...a comprehensive approach to evaluating all commercial fishing activity in Welsh waters and its interaction with MPA features. Its purpose is to identify where there is a risk the interaction between fishing gear and a MPA feature could have a potential negative affect.

Fel rhan o'r prosiect hwn, cafodd adroddiad egwyddorion a blaenoriaethu ei gyhoeddi yn 2016 ac mae'n datgan y bydd effeithiau gweithgareddau pysgota mewn Safleoedd Morol Ewropeaidd yn cael eu hystyried o dan *Erthygl 6(2) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (92/43/EEC)*, sy'n:

> ... requires Welsh Government to avoid the deterioration of natural habitats and the habitats of species, as well as disturbances of the species for which the areas have been designated, in so far as such disturbance by fishing activities could be significant in relation to the objectives of the Habitats and Birds Directives. Article 6(2) of the Habitats Directive has an emphasis on preventative measures, it is broad in scope and it is applicable to the all activities within a SAC.

Cwblhawyd asesiadau ar 40 o ryngweithiadau risg uchel ('gradd porffor'). Mae'r rhain yn asesu llwybrau effaith posibl o bum math gwahanol o offer; treillio trawst, treillio trawst (berdys), treillio dyfrgwn ysgafn, treillio aml-rig a threillio cregyn bylchog (brenhines), ac wyth nodwedd safle gwahanol.

Disgwylir ymgynghori ar yr agweddau risg uchel a nodwyd yn y prosiect. Ni lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar adeg ysgrifennu'r papur briffio hwn.

Ym mis Medi 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fframwaith Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru 2018-2023, sy'n nodi gwybodaeth am Ardaloedd Morol Gwarchodedig, sut y cânt eu rheoli a chan bwy, a chynlluniau ar gyfer gwella. Mae hefyd yn cyhoeddi cynlluniau gweithredu rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig, blynyddol sy'n eistedd ochr yn ochr â'r fframwaith ac yn manylu ar y camau a nodwyd gan Grŵp Llywio Rheoli

Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru fel blaenoriaethau i wella rheolaeth a chyflwr Ardaloedd Morol Gwarchodedig,

Ym mis Medi 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Tystiolaeth Forol Cymru, mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r strategaeth yn rhoi trosolwg o'r blaenoriaethau tystiolaeth forol lefel uchel yng Nghymru a fframwaith i gwrdd â'r heriau tystiolaeth hynny. Mae'n nodi (pwyslais wedi'i ychwanegu):

> [...] mae'r amgylchedd morol yn cynnig llu o fanteision sy'n cefnogi llesiant cymunedau'r arfordir a chymdeithas yn ehangach. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: amrywiaeth o gynefinoedd a rhywogaethau sy'n ffurfio'r ecosystem forol ehangach ac yn darparu 'gwasanaethau ecosystem' fel **atafaelu carbon**, ailgylchu maetholion a lliniaru erydu arfordirol [...].

Ym mis Tachwedd 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru, sy'n cynnwys ymrwymiad i 'wella'r ddealltwriaeth a galluogi gweithredu sy'n cefnogi ymaddasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd'. Er nad yw'r cynllun yn cyfeirio at garbon glas yn uniongyrchol, mae'n nodi (pwyslais wedi'i ychwanegu):

> Mae adnoddau naturiol y môr yn asedau pwysig ac mae moroedd Cymru'n cynnal amrywiaeth o weithgareddau ar draws llawer o sectorau sy'n gwneud cyfraniad pwysig at yr economi, gan gynnwys trwy fuddiannau gweladwy uniongyrchol fel bwyd, olew a deunydd adeiladu a thrwy ddarparu gwasanaethau llai amlwg fel **dal a storio carbon** a rheoli'r hinsawdd

Yn ei hymateb i'r ddeiseb hon, dywed y Gweinidog ei bod yn "cydnabod pa mor bwysig yw dal a storio carbon yn ein hamgylchedd morol" a:

> bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi rhagor o ymchwil i stociau a llifoedd carbon mewn cynefinoedd morol.

# 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Ym mis Awst 2017, cyhoeddodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig y Senedd flaenorol ei adroddiad,'Y Llanw'n troi? Adroddiad ar yr ymchwiliad i ddull Llywodraeth Cymru o reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

Ym mis Mehefin 2017, cynhaliodd y Pwyllgor **waith dilynol ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig** yng Nghymru, i asesu'r cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru wrth fwrw ymlaen â'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor, ac wrth gyflawni Cynllun Gweithredu Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig 2018-19.

Mewn perthynas â Phrosiect Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru argymhellodd y Pwyllgor:

> Dylai Llywodraeth Cymru esbonio pam nad yw mesurau rheoli wedi eu gweithredu eto o ganlyniad i asesiadau Prosiect Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru ar gyfer gweithgareddau risg uchel, a gyhoeddwyd yn 2017. Dylai gyflwyno ymgynghoriad ar opsiynau rheoli ar gyfer y gweithgareddau hynny ar frys.

Mewn ymateb dywedodd Llywodraeth Cymru y bydd canlyniadau'r asesiadau yn cael:

> … eu defnyddio i lywio y cynigion rheoli ar gyfer gweithgareddau pysgota offer symudol risg uchel. Bydd y cynigion hyn yn llunio rhan o ymgynghoriad cyhoeddus a ddylai, gan ddibynnu ar effaith gwaith sy'n gysylltiedig â Brexit, ddechrau yn gynnar yn 2020. Hoffwn ddweud wrth y Pwyllgor fy mod wedi ymrwymo i warchod nodweddion dynodedig, yn unol â Chyfarwyddebau Adar a Cynefinoedd yr UE.

Mewn ymateb i gwestiwn ysgrifenedig ym mis Awst 2020 ynglŷn â Phrosiect Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru, dywedodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar y pryd nad oedd yn gallu darparu amserlen benodol ar gyfer ymgynghori oherwydd dwy her, sef Ymadael â'r UE a Covid-19.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.